

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Tref y Bala: **10fed o Fai 2012**

826. Presennol: Y Cyng Shan Ranson, Maer, Ivora Jones, Dirprwy Faer, Eifion Roberts, Dilys Evans, Alun Price, Dilwyn Jones, Edith Roberts, Eluned Jones, Dorothe Evans, Sharon Wyn Evans ac y Cynghorydd Sir Dilwyn Morgan

Ymddiheuriadau gan John C Williams ac Islwyn Pritchard-Jones

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gyda croeso i'r cynghorydd sir Dilwyn Morgan ac edrychwn ymlaen i gyd-weithio gydag ef a diolch i Dylan Edwards am eu waith dros y blynyddoedd.

827. Neb yn datgan buddiant

828. Cafwyd adroddiad byr gan Dilwyn Morgan ei fod yn edrych ymlaen i cydweithio gyda y Cyngor Tref ac yn bwriadu trefnu codi ymwybyddiaeth mae ef yw y cynghorydd newydd, efallai drwy cynhyrchu cardiau cyfarch, hefyd yn gobeithio gynnal cymorthfeuydd rheolaidd iddo cael tynnu bobl mwy i fewn i materion y dref. Un o'r materion cyntaf mae ef am edrych ar yw y pryder am yr heddlu ar y stryd ac mae trefniadau wedi eu wneud i cyfarfod a'r aelod seneddoli. Hefyd pan mae yn trafod gyda'r heddlu mae am adrodd nol iddynt am y fan Gan Bwyll ac beth sydd yn digwydd am y llinellau melyn yn Heol Tegid.

829. Darllenwyd cofnodion y 5ed o Ebrill a cadarnhawyd yn gywir

830. Materion yn codi o'r cofnodion

Shan Ranson yn adrodd am parc Chwarae yn Parc eu bod wedi siarad gyda y cwmni oedd wedi gwneud gwaith clirio ar y safle

Amserlen bws- yn dilyn hysbysu Cyngor Gwynedd nad oedd amserlen ger arosfa Badell Aur/DE mae nhw yn cadarnhau nad ydynt yn cael gosod rhagor o arwyddion ar y polyn golau - gwneud cais am polyn ac arwydd.

Coeden ar y Stryd fawr – nid yw y swyddog coed Asiantaeth Cefnffyrdd am cyniadau torri coeden iach i lawr.

Gwrych yn Heol Tegid, wnaethom hysbysu Gwynedd ac cadarnhawyd bod nhw eisioes wedi atgoffa y perchnogion i'w docio.

Coed o amgylch LLyn Tegid. Cysylltwyd a'r Parc yn holi os oedd modd torri rhai er mwyn i'r llyn fod yn fwy gweladwy. Atebwyd bod angen cyniadtad Cyngor Cefn Gwlad Cymru cyn torri coed ac mae dim ond ar rhai adegau o'r flwyddyn gall wneud beth bynnag. Pasiwn y gwybodaeth i'r grwp busnes ac iddynt cysylltu gyda y warden Arwel Morris i drafod ymhellach.

Sbwriel ger adeilad y Warden – Anfonwyd at y warden am y sbwriel sydd ger y bin baw cwn a gofyn i symud bin sbwriel cyffredin ato.

Cyfraniad costau gweinyddol y Partneriaeth – llythr yn diolch am y cyfraniad ac yn cadarnhau nodi ein sylwadau. Cafwyd hefyd adroddiad byr gan Alun Price ar sefyllfa y Partneriaeth, cafwyd 10% o ymateb i'r holiadur diweddar ac mae nhw wedi mynd at Menter a Business i'w dadansoddi.

Tomen y Bala – Llythr gan CADW angen trafod y materion gyda Cyngor Gwynedd cyn cychwyn unrhyw waith, y cynghorwyr o'r farn bod y gwaith ar y wal yn enwedig yn syrthio tu allan y cytundeb ac nid yn "cynnal a chadw" – trefnu cyfarfod a swyddogion o Cyngor Gwynedd

831 Materion yr Heddlu: yn dilyn ein ymholiad cafwyd llythr yn adrodd bod ymweliadau y fan Gan Bwyll wedi bod yn llai rheolaidd oherwydd lefelau staff ac eu bod yn y broses o recriwtio ac bydd y sefyllfa yn gwella yn ystod y misoedd nesaf.

Arwyddwyd.....Y Maer

Arwyddwyd.....Clerc

832.Materion Cynllunio: Derbynwyd cadarnhad gan Y Parc Cenedlaethol Eryri bod nhw yn caniadtau'r Newid defnydd uned manwerthu i ran o uned breswyl ac Caniadtad adeilad Rhestredig a newidiadau i drosi uned manwerthu i ran o uned breswyl Adeiladau'r Aran, 88-96 Stryd ac yn gwrthod cais ol weithredol i adeiladu stabl tir ger 16 Craig y Fron Y Bala

833.Materion Cyllid- cymeradwo i dalu yswiriant blynyddol i AON, Bil ffon Vodafone, ad-daliad treth ar werth i'r Partneriaeth Penllyn. Cais am arian gan Ysgol Bro Tegid am cyfraniad at costau mynd a'r plant i gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd yng Nglynllifon. Cadarnhawyd bod hanner y praesept wedi eu dderbyn.

834.Gohebiaeth:

Cyngor Gwynedd/Cymdeithas Tai Clwyd-Gwahoddiad I fynd Canolfan Bro Tegid ar 24 o Ebrill i weld cynlluniau Awel y Coleg ac i ddarpar ymgweiswyr cael gweld fflat arddangos ar y safle, trefnir trafniadaeth o'r Ganolfan.

Unllais Cymru – Gwybodaeth am Cinio Mawr, sydd a gyda rhan orau o dwy filiwn o bobl wedi cymerud rhan y llynedd, meant yn annog trigilion a grwpia i gynnal Cinio Mawr yn eu cymdogaeth a chymunedau. Ac ebostr ar gwybodaeth cyllid - Cronfa Amrywiaeth a Gwydnwch Ecosystem Llywodraeth Leol

Gwyboeth ar ble I gael llyfr adnoddau Gwreiddiau Cryfion

Commisiwn Ffiniau Llywodarath Leol – nodyn i'r wasg

Scottish Power – tystysgrif gyda rhifau at trydan defnyddwyd i goleuadau coed nadolig.

Parc Cenedlaethol Eryri – Hysbysiad o Ddiwrnod Agored y Gyfarwyddiaeth Rheoli Tir ar 19 Mehefin 2012

Llyfryn Gwanwyn -Hospis Ty'r Eos

835.Materion eraill – Eglurodd y Maer, Shan Ranson bod plant Ysgol Bro Tegid yn dod i weld Siambr y Cyngor Tref wythnos nesaf gyda hi, I'w prosiect Ein Tref.

Mae hi hefyd wedi cael gwahoddiad i fynd i'r rali gyrfau y fyddin sydd i'w chynnal ar caeau Rhiwlas wythnos nesaf.

Cawn weld faint o stondinau fydd wedi troi at y palmant fel rydym wedi crybwyll gyda Cyngor Gwynedd yn ddiweddar ar gais y grwp busnesau. Mae y grwp hefyd yn paratoi at creu posteri i'w hongian mewn ffenestri siopau gwag.

Gyda sylwadau am golwg y dref rydym am ddiolch i'r grwp twristiaeth am osod blodau o flaen yr HSBC. Daeth cynnig efallau wnaiff y Cyngor Tref gyda help plant ysgol efallai plannu cennin pedr yn yr hydref ar y Domen.

Shan Ranson will be Mayor for second year with Mrs Ivora Jones as Deputy. Dilwyn Morgan has started his duties as Gwynedd Councillor and intends to make himself known and hopefully hold surgeries to get townfolk involved with local matters. We have requested a pole and timetable for bus stop near Badell Aur/siop DE. However the request regarding tree next to bench has been refused. There is an invitation for the business group to meet with the Warden to discuss the trees around the lake. Thanks were given to the tourism group for planting flowers adjacent to HSBC.

Arwyddwyd.....Y Maer

Arwyddwyd.....Clerc